# Cipolwg ar arolwg Eco Church

Croeso i arolwg Eco Church – fframwaith ar gyfer gweithredu i'n helpu i ymateb yn ffyddlon i argyfyngau'r hinsawdd a byd natur. Mae arolwg Eco Church yn offeryn hunanasesu er mwyn i eglwysi gysylltu materion amgylcheddol 'u ffydd a'u cenhadaeth Gristnogol, ac ymateb trwy weithredu'n ymarferol yn yr eglwys, ym mywydau pobl, ac yn y gymuned leol a byd-eang. Mae arolwg Eco Church yn gynllun dyfarnu di-d l ar-lein sy'n cwmpasu pob rhan o fywyd yr eglwys trwy'r pum categori sy'n dilyn:

## Addoli ac Addysgu
### Gwreiddio gofal am y cread mewn addoliad, gweddi a dysgu

Fel pobl a grewyd ar ddelw Duw, fe'n gelwir i ymateb, i ofalu am y ddaear, ac i weithio i'w hamddiffyn a'i hadfer. Mae cydaddoli yn rhan annatod o fywyd y rhan fwyaf o eglwysi, ac mae llawer o'r cwestiynau yn y categori hwn o'r arolwg yn ymwneud ag agweddau ar gydaddoli, gan gynnwys gwasanaethau arbennig, cerddoriaeth, pregethu a gweddi. Gall fformat yr addysgu yn ein heglwysi gymryd sawl ffurf, er enghraifft pregethu yn ystod addoliad ar y cyd, grwpiau bychain, cyrsiau paratoi, a gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

## Adeiladau ac Ynni
### Cael hyd i ffyrdd arloesol o reoli ein haddoldai, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon

Mae'r categori hwn yn cynnwys camau ymarferol sy'n helpu eglwys i weithio tuag at 'sero carbon net'. Mae llawer o'r cwestiynau yn y categori hwn yn cyfeirio at gynnal a chadw adeiladau'n dda ar gyfer y tymor hir, wrth i'n hadeiladau orfod goddef hinsawdd newidiol, gyda mwy o eithafion, ac wrth i ni geisio eu cynnal fel mannau croesawgar, sy'n gogoneddu Duw.

## Tir a Byd Natur
### Meithrin lleoedd ar gyfer pobl a byd natur


Diben y categori hwn yw eich tywys trwy gamau gweithredu ymarferol i ofalu am ddaear Duw. P'un a yw'r tir ym mherchnogaeth yr eglwys, hyd yn oed os nad yw ond o amgylch adeilad yr eglwys ei hun, neu'n dir yn y gymuned leol, mae angen i eglwysi reoli tir er lles byd natur.

## Cymuned ac Ymgysylltiad Byd-eang
### Trawsffurfio cymunedau ac ecosystemau lleol a byd-eang

Mae'r categori hwn yn yr arolwg yn ymwneud 'r hyn mae eich eglwys yn ei wneud ar y cyd fel corff o ran eiriolaeth a gweithredu. Lle bynnag ydych chi ar eich taith o ran ymgysylltiad cymdeithasol a gwleidyddol, mae'r categori hwn yn yr arolwg yn wahoddiad i gymryd y cam nesaf, p'un a yw hynny'n golygu cychwyn sgwrs yn eich eglwys, ymuno digwyddiadau lleol sy'n ymwneud chyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, neu ymuno ag ymgyrch dros fyd natur.

## Ffordd o fyw
### Byw yn llawen ac yn gynaliadwy fel dilynwyr Crist

Mae'r categori hwn yn ymwneud 'n heglwysi'n annog pobl i weithredu fel unigolion ac aelwydydd – gwneud gofal am y cread yn rhan o fywydau beunyddiol o ran integriti, yn weithred o addoliad ac ufudd-dod i Dduw, ac wrth i ni dyfu fel disgyblion. O fewn y categori hwn, rydyn ni'n annog yr eglwys i fynd ati i addysgu a datblygu gwybodaeth aelodau unigol yr eglwys, a chymunedau ehangach, ynghylch camau gallan nhw eu cymryd a'u dylanwad.




## Cwblhau'r arolwg

Lluniwyd arolwg Eco Church er mwyn i chi asesu eich ymwneud gofal am y cread a monitro eich cynnydd. Bydd y cwestiynau ym mhob categori yn eich sbarduno i gymryd camau pellach. Byddwch yn derbyn pwyntiau yn l sut rydych chi'n gofalu am ddaear Duw, a phan gewch chi ddigon o bwyntiau, byddwch yn derbyn dyfarniad efydd, arian neu aur.

Gofynnwn i chi gofrestru, cwblhau'r arolwg a gwneud cais am ddyfarniad trwy'r platfform ar-lein. Mae gennym ni ddetholiad gwych o adnoddau i'ch helpu a'ch ysbrydoli.

## Dewis llwybrau

Mae eglwysi'n amrywio o ran maint a ffurf, felly er mwyn i'r arolwg Eco Church fod yn berthnasol i amgylchiadau gwahanol eglwysi rydyn ni wedi creu llwybrau gwahanol i chi ddewis ohonynt mewn dau o'r categorïau. Ar hyd yr arolwg, rydyn ni'n gofyn i chi ddewis yr ymateb sy'n disgrifio eich sefyllfa chi orau.

Mae tri llwybr yn y categori Adeiladau ac Ynni:
Llwybr 1 – ar gyfer eglwysi cadeiriol ac eglwysi sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd (o leiaf bob wythnos) ac sydd  chyflenwadau ynni a dŵr.
Llwybr 2 – ar gyfer eglwysi bach a ddefnyddir yn achlysurol, gan gynnwys rhai sydd heb gyflenwadau ynni na dŵr.
Llwybr 3 – ar gyfer eglwysi sydd heb fod yn berchen ar adeilad (e.e. rhai sy'n cwrdd mewn gofod ar rent, neu yn yr awyr agored).

Mae dau lwybr yn y categori Tir a Byd Natur:
Llwybr 1 – ar gyfer eglwysi sy'n berchen ar dir neu'n ei reoli, er enghraifft, gardd, mynwent neu gladdfa.
Llwybr 2 – ar gyfer eglwysi sydd  thir cyfyngedig iawn, er enghraifft, maes parcio arwyneb caled, llain fechan o dir ar ymyl y safle, neu arwynebau caled eraill, ac eglwysi nad ydynt yn rheoli nac yn berchen ar unrhyw dir. Mae'r llwybr hwn yn gofyn i chi ystyried y swm bychan o dir sydd gennych, os o gwbl, a hefyd sut gallwch chi ddylanwadu ar dir mae eraill yn ei reoli.

Dewiswch y llwybrau mwyaf addas i'ch cyd-destun. Yn achos y rhan fwyaf o eglwysi, bydd hynny'n ddigon syml. Mewn ambell achos, gallai fod yn werth archwilio pob llwybr cyn penderfynu p'un yw'r un mwyaf priodol ar gyfer eich sefyllfa.

Mynd am yr aur
Mae ymgeisio am ddyfarniad aur yn golygu cymryd rhai camau ychwanegol y tu hwnt i arolwg Eco Church. Y rheswm am hynny yw er mwyn i ni fedru dysgu mwy am eich cyflawniadau a deall sut mae Eco Church wedi'i wreiddio yn eich cymuned addoli. Mae rhagor o fanylion am yr hyn sy'n ofynnol ar gael ar ein gwefan.

Dathlu!
Mae dathlu eich dyfarniad yn rhan bwysig o'r broses Eco Church – cymryd amser i gydnabod y cynnydd a wnaethoch. Rydym yn eich annog i rannu newyddion am eich dyfarniad Eco Church yn eich eglwys ac yn y gymuned ehangach.

